Cofnodion wedi'u cadarnhau

Teitl y Cyfarfod:	**Cyfarfod o'r Bwrdd (Busnes)**
Dyddiad y Cyfarfod:	2 Hydref 2014
Aelodau'r Bwrdd:	Mike Brooker Ruth Hall Madeleine Havard Peter Matthews (Cadeirydd) Andy Middleton Nigel Reader Emyr Roberts (Prif Weithredwr) Lynda Warren Paul Williams
Y Tîm Gweithredol yn bresennol:	Graham Hillier Ceri Davies Clive Thomas Niall Reynolds Catherine Smith Trefor Owen
Ysgrifenyddiaeth:	Kelly Goswell Geralene Mills

Eitem 1

Croeso

1. Croesawodd y cadeirydd yr holl aelodau i'r cyfarfod.

2. Cyflwynwyd Ashleigh Dunn, a fydd yn dechrau ar ei swydd fel y Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Datblygu'r Sefydliad a Rheoli Pobl ym mis Tachwedd.

3. Diolchodd y Cadeirydd i Mike Brooker, un o aelodau'r bwrdd, gan y bydd ei swydd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn dod i ben ddiwedd mis Hydref, a dymunwyd yn dda iddo. Nodwyd bod y Bwrdd yn cydnabod ei gyngor da a'i gyfraniad fel Aelod o'r Bwrdd a bod hynny wedi'i werthfawrogi.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ymddiheuriadau

4. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Kevin Ingram, Hywel Davies a Tim Jones.

Datgan Diddordeb

5. Datganiadau'n berthnasol i Eitem 4:
    - Ruth Hall - Mae ei gŵr yn asiant tir yn Ystâd Pysgodfeydd Dyffryn Conwy
    - Paul Williams – pysgotwr
    - Harry Legge-Bourke – Cadeirydd Cymdeithas Bysgota Brynbuga

Cadarnhau Cofnodion

6. Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod Bwrdd 9 Gorffennaf yn gofnod cywir o'r cyfarfod ac fe'u cymeradwywyd gan y Bwrdd.

7. Nodwyd fel mater yn codi: Tudalen 3 – eitem 2. Derbyniwyd ymateb gan Gomisiynydd y Gymraeg ar yr adroddiad monitro. Cynhelir cyfarfod arferol yn y dyfodol agos i drafod y cwestiynau a ofynnwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd.

8. Nododd Madeline Havard bod dosbarthu cofnodion drafft cyn y cyfarfod Bwrdd wedi bod yn ffordd effeithiol o symud ymlaen o ganlyniad i gyflymder cadarnhau'r cofnodion.

Adolygu'r Log Gweithredu

9. Adolygwyd y log Gweithredu a chafwyd yr adborth canlynol:

Cam Gweithredu 3 – Eitem 2 Awgrymodd Nigel Reader addasiad er mwyn dangos yn glir bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei ddatblygu ar y cyd â Madeleine Havard drwy'r Pwyllgor Rheoli Risg Llifogydd a'r Pwyllgor Sicrwydd Archwilio a Risg.

10. Nodwyd yr holl Gamau Gweithredu eraill ac fe'u cyflawnwyd.

2. Yr Adolygiad Perfformiad 1af – Dangosfwrdd 2014/15 (NRW B B 64.14)

11. Croesawyd John Hogg i'r cyfarfod a rhoddodd gyflwyniad i'r Bwrdd yn rhoi manylion am berfformiad y Dangosfwrdd yn ystod y cyfnod adrodd cyntaf (1 Ebrill – 31 Gorffennaf).

12. Yn ystod y cyflwyniad, rhoddodd y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am dargedau sydd 'mewn perygl' ragor o wybodaeth a chyd-destun er mwyn egluro eu statws 'coch'.

13. Nododd y Bwrdd y cyflwyniad gan roi'r adborth canlynol:

- Rhoi mwy o gyd-destun i ddangosyddion coch, amlygu ystyr coch i gwsmeriaid
- Adolygu'r dangosydd coch sy'n berthnasol i ofyniad yr adnodd Glastir er mwyn ystyried y 'gwersi i'w dysgu' ar gyfer cynllunio yn y dyfodol
- Wrth i ni gael mwy o sgiliau – mae angen canlyniadau mesuradwy, llai o adrodd ar brosesau a mwy o brosesau sy'n seiliedig ar ganlyniadau

14. Cafodd yr adroddiad ar berfformiad ei gymeradwyo gan y Bwrdd, gan nodi'r gwelliant parhaus a chytuno ei fod yn sail a fframwaith da ar gyfer sefydliad hynod o gymhleth. Cytunwyd y byddai Nigel Reader o'r Is-grŵp Cynllunio a Pherfformiad yn gweithio gyda'r tîm i fireinio rhai agweddau ar yr adroddiad.

3. Diweddariad Cyllid 2014/15 (NRW B B 65.14)

15. Croesawyd Yvonne Thomas i'r cyfarfod i gyflwyno'r papur cyllid ar ran Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforol.

16. Soniodd Yvonne am y gyllideb ddiweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru gan ddweud ei bod yn annhebygol y gwelwn ni newidiadau pellach i'n cymorth grant yn 2015/16.

17. Mae perfformiad ar y cyfan ar y trywydd iawn, gyda phwysau yn y busnes yn cynnwys dau brosiect heb eu cwblhau o fewn y rhaglen Rheoli Peryglon Llifogydd ac Arfordiroedd. Cadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddwyn tanwariant y rhaglen eleni ymlaen.

18. Bydd adolygiad o Chwarter 2 yn cael ei gwblhau'n fuan ac yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

19. Nododd Nigel Reader y dylai'r adroddiad cyllid gael ei nodi ochr yn ochr â'r adroddiad perfformiad yn y tymor hwy, ac y byddant yn cael eu cyfuno fwyfwy yn y dyfodol. Hefyd, dywedodd Nigel fod angen bod yn wyliadwrus rhag i glustnodi cyllid greu mannau dan bwysau na fyddent yn amlwg yn y darlun cyflawn; cadarnhaodd y Tîm Gweithredol eu bod yn ymwybodol o hyn.

20. Cytunodd y Bwrdd bod angen i'r tîm cyllid ddarparu trywydd archwilio o newidiadau i'r gyllideb costau rhedeg a'r eitemau heb eu cyllido yn y fformat y cytunwyd arno ac ystyried y Rhaglen Peryglon Llifogydd er mwyn helpu i ddeall yr effaith.

21. Wrth grynhoi, nododd y Bwrdd y sefyllfa ariannol.

4. Rheoli Adnoddau Naturiol a Stocio Eog, Stocio Eog Trydydd Parti a Dyfodol a Dyfodol Deorfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW B B 66.14)

22. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio y papur a chroesawodd Peter Gough a Mike Evans a baratôdd y papur ac a gyflwynodd grynodeb i'r Bwrdd.

23. Cadarnhawyd bod sylwadau gan aelodau'r cyhoedd a dderbyniwyd cyn y cyfarfod wedi'u rhannu rhwng holl Aelodau'r Bwrdd.

24. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd ystyried y papur mewn dwy ran; yn gyntaf, ceisio cael cytundeb y Bwrdd mewn egwyddor bob angen cymryd camau i wella iechyd poblogaeth eogiaid yng Nghymru. Cytunodd y Bwrdd gyda'r canlyniad hwn. Yn ail, ystyried cynigion penodol y papur a'r dystiolaeth a gyflwynwyd a sut oeddent yn cefnogi'r nod cyffredinol o wella iechyd poblogaeth eogiaid Cymru.

25. Trafododd y Bwrdd y cynigion a nodwyd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Mynegodd Aelodau'r Bwrdd eu gwerthfawrogiad o'r holl waith a oedd yn ofynnol i ystyried a dadansoddi'r sail dystiolaeth wrth lunio'r argymhellion
- Ar ôl trafod yr un materion 15 mlynedd yn ôl, nododd Lynda Warren pa mor gadarnhaol oedd bod y cynnig hwn yn bwrw ymlaen â'r materion
- Dywedodd Lynda hefyd fod eogiaid yn wahanol iawn i bysgod eraill yn gyfreithiol, yn enetigol, yn ddiwylliannol ac o safbwynt hamdden hefyd, ac felly bod angen eu rheoli mewn modd cyfannol, a bod datblygu cynefinoedd iach drwy Reoli Adnoddau Naturiol yn allweddol.
- Nododd Paul Williams fod disgwyl i'r Bwrdd wneud penderfyniad yng nghyd-destun adroddiad Cefas a oedd yn dangos bod sefyllfa iechyd poblogaeth eogiaid yn 2013 yn waeth yng Nghymru na Lloegr ac nad yw'n gwella mor gyflym â'r disgwyl. Mae gwir angen mynd i'r afael â'r rhwystrau eraill i lwyddiant os bydd stocio'n darfod.
- Mynegodd Harry Legge-Bourke ei bryderon bod angen cymryd camau clir a chyflym i ddarparu'r mesurau eraill os bydd stocio'n dod i ben, ac y dylai CNC fod yn rhan o'r trafodaethau gyda'r llywodraeth ac asiantaethau eraill er mwyn helpu i atal y dirywiad er budd llawer o randdeiliaid gwledig a morol.
- Er bod dyletswydd i roi'r gorau i unrhyw weithgaredd unwaith mae'r dystiolaeth yn dangos nad yw'n effeithiol a bod ystyriaethau 'gwerth am arian' wrth sicrhau canlyniadau gwell yn bwysig, cytunodd y Bwrdd bod angen cydnabod pryderon rhanddeiliaid trwy sicrhau bod ein camau gweithredu'n dangos pa mor ymroddedig ydym i wella iechyd stociau eog yng Nghymru.
- Felly, dywedodd y Bwrdd y dylai unrhyw benderfyniad i gau'r deorfeydd a rhoi'r gorau i stocio eog fod yn ddibynnol ar ymrwymiad i greu cynllun gweithredu (gydag amserlenni a chanlyniadau mesuradwy fesul dalgylch afon) er mwyn mynd i'r afael ar frys â gwella

llwybrau pysgod, gwella llif afonydd, lleihau llygredd amgylcheddol, gwella cynefinoedd a lleihau cam-fanteisio.

26. Fe wnaeth y Cadeirydd grynhoi'r trafodaethau trwy gytuno mai'r ffocws oedd buddsoddi i wella'r boblogaeth eogiaid yn y dulliau a ddisgrifiwyd yn y papur, a bod yr achos cryf dros newid yn seiliedig ar dystiolaeth. Cytunwyd ar yr holl argymhellion a phwysleisiodd y Bwrdd bod y cynigion yn cynnig ffordd well ymlaen yn seiliedig ar y dystiolaeth a chost effeithiolrwydd. Cytunwyd ar yr holl gamau nesaf, gan gynnwys cyfathrebu da gyda'r rhanddeiliaid a effeithir a chwblhau'r cylch stocio cyfredol o ddeorfeydd.

27. Yn olaf, galwodd y Cadeirydd am ddull gweithredu'n seiliedig ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a chanfod ffyrdd newydd o gyflawni pethau, fel rhan o Reolaeth Adnoddau Naturiol, gydag adroddiadau rheolaidd am y cynnydd i'r Bwrdd.

5. Strategaeth Gyfathrebu (NRW B B 67.14)

28. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol y Strategaeth Gyfathrebu arfaethedig i'r Bwrdd, gan fanylu ar elfennau allweddol y strategaeth, y manteision posibl a bod angen dull integredig er mwyn helpu i ddarparu'r strategaeth.

29. Trafodwyd y strategaeth a gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol:

- Canmolwyd pwysigrwydd cylch gwella parhaus
- Cytunwyd ar rôl Strategaeth Gyfathrebu o ran helpu i ddarparu gofal gwych i gwsmeriaid
- Pwysigrwydd sicrhau bod y sefydliad cyfan yn 'berchen' ar y strategaeth, ac y byddai ond yn llwyddiannus os caiff ei gweithredu gan bawb, gan fod gan bawb gyfrifoldebau cyfathrebu
- Angen ymgysylltu'n barhaus er mwyn sicrhau newid diwylliant
- Mae'r broses yn canolbwyntio ar ganlyniadau
- Nodwyd ethos cyflenwi cost isel/dim costau.

30. Cafodd y strategaeth a'r camau nesaf arfaethedig eu cymeradwyo gan y Bwrdd.

6. Strategaeth Gofal Cwsmeriaid (NRW B B 68.14)

31. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cenedlaethol y papur a gofynnodd i'r Bwrdd drafod a chytuno ar lefel uchelgais y Strategaeth Gofal i Gwsmeriaid arfaethedig.

32. Bu'r Bwrdd yn trafod yr opsiynau cyn cytuno ar y canlynol:

- Bod gofal i gwsmeriaid yn rhagori ar wasanaethau cwsmeriaid
- Bydd angen cryn dipyn o uchelgais ac ymrwymiad
- Bydd gofal gwych i gwsmeriaid yn gwella enw da a brand y sefydliad
- Bydd ceisio achrediad maes o law yn ychwanegu gwerth a thrylwyredd
- Bod y cysyniad gofal i gwsmeriaid yn gweithio'n fewnol ac yn allanol
- Bod Paul Williams wedi'i benodi'n Hyrwyddwr Gofal i Gwsmeriaid
- Bod arweiniad yn hollbwysig er mwyn meithrin y newid diwylliant ac ymddygiad sydd ei angen, ac y bydd angen cyfraniad personol y Prif Weithredwr hefyd
- Bydd angen cynllun prosiect i weithredu'r strategaeth gyda cherrig milltir a thargedau clir.

33. Cymeradwyodd y Bwrdd y strategaeth a chytuno ar y camau nesaf.

7. Iechyd, Diogelwch a Lles – Diweddariad Datblygu'r Strategaeth (NRW B B 71.14)

34. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu ddiweddariad i'r Bwrdd ar ddatblygu'r Strategaeth Iechyd, Diogelwch a Lles a gynigiwyd i'r Bwrdd yng nghyfarfod mis Mai 2014.

35. Byddwn yn mabwysiadu dull rhaglen gyda phwyslais ar ddatblygu diwylliant Iechyd, Diogelwch a Lles gadarnhaol, ailwampio trefniadau llywodraethu yn ogystal â chynllun gwella er mwyn helpu i gyflawni'r strategaeth.

36. Nododd y Bwrdd y camau nesaf arfaethedig gan gytuno ar newidiadau, blaenoriaethau a'r dull ymgysylltu. Hefyd, dywedodd y Bwrdd y dylai 'Lles' ragflaenu Iechyd a Diogelwch er mwyn pwysleisio'r canlyniad hwn.

Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth i nodi'r rhagolwg – diweddariad ar y cynnydd yng nghyfarfod y Bwrdd mis Chwefror 2015.

8. Polisi Rheoli Risg (NRW B B 69.14)

37. Esboniodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu fod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi ystyried y Polisi Rheoli Risg a'i fod wedi'i gyflwyno i dderbyn sêl bendith y Bwrdd.

38. Nododd y Bwrdd y polisi gyda'r adborth canlynol

- ARAC i adolygu'r polisi ymhellach a sicrhau bod yr holl elfennau yn berthnasol a phenodol i CNC
- Bod Atodiad 2 yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod CNC yn cydymffurfio ag egwyddorion 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'

39. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r polisi yn amodol ar fân newidiadau ac yn nodi'r gwaith parhaus.

Cam gweithredu: Cadeirydd ARAC i adolygu'r polisi yn sgil sylwadau'r Bwrdd, a chadarnhau unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gydag ARAC yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

9. Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Amcanion Drafft (NRW B B 70.14)

40. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu bapur i'r Bwrdd.

41. Nododd y Bwrdd fod y sesiynau ymgynghori eisoes ar waith ar ffurf gweithdai mewnol ac allanol.

42. Trafododd y Bwrdd y papur gan ddarparu'r adborth canlynol:

- Bod datblygu'r cynllun yn ofyniad cyfreithiol i CNC
- Pwysigrwydd cynnwys staff a rhanddeiliaid
- Roedd cymorth a chyfraniad Diverse Cymru yn amhrisiadwy
- Bydd angen set clir o gamau gweithredu er mwyn helpu i weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

43. Cymeradwyodd y Bwrdd yr amcanion drafft, a chytunwyd ar y camau nesaf i gwblhau'r Ymgynghoriad yn unol â chynigion y papur.

10. Diweddariad y Cadeirydd (ar lafar)

44. Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfodydd a fynychwyd, a chyflwynodd adroddiad am weithgareddau dan bedair colofn Rheoli Adnoddau Naturiol.

45. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod bellach yn ysgrifennu colofn reolaidd yng nghylchgrawn The Environment Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd.

11. Diweddariad y Prif Weithredwr (ar lafar)

46. Dechreuodd y Prif Weithredwr ei adroddiad trwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Les, Iechyd a Diogelwch.

- Dim achosion o niwed yn arwain at golli amser i'w hadrodd
- Mae cyfraddau absenoldeb salwch CNC yn isel

- Roedd y Cyfarwyddwr Llywodraethu eisoes wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu'r strategaeth

47. Rhoddodd y Prif Weithredwr y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd nifer o faterion mewnol:

- Mae penodiadau'r Tîm Rheoli wedi'u cwblhau
- Mae proses ailstrwythuro'r Cyfarwyddiaethau yn dal i fynd rhagddi, a disgwylir i'r rhan fwyaf gael eu cwblhau erbyn y Nadolig
- Mae'r cynllun gadael swydd yn gynnar o wirfodd ar waith ar hyn o bryd, sy'n cynnwys targed o 80-100 o staff i adael y sefydliad erbyn mis Mawrth 2015
- Mae swyddfa Penfro bellach ar gau, gyda'r staff yn symud i swyddfa Hwlffordd. Ym Mangor, bydd staff Plas Penrhos yn symud i swyddfa Llwyn Brain cyn bo hir
- Bydd Ashleigh Dunn yn ymuno â CNC ar 17 Tachwedd fel Cyfarwyddwr Gweithredol ODPM
- Bydd proses recriwtio Prif Swyddog Gwybodaeth yn cychwyn cyn hir, a'r swydd yn cael ei hysbysebu'n fewnol ac yn allanol
- Mae'r broses o weithredu'r pecyn buddion llawn yn mynd rhagddi, a'r gwaith yn parhau gyda'r cynllun gwerthuso swydd a fydd yn cael ei ehangu ar draws y sefydliad maes o law
- Rydym yn ffyddiog y bydd system TGCh CNC ar waith ar draws y sefydliad cyfan cyn diwedd y flwyddyn.

47. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod y Tîm Gweithredol wedi trafod symud y sefydliad ymlaen o'r cyfnod pontio i drawsnewid. Bwriedir cynnal proses ymgysylltu bellach â'r staff a bydd cyflwyniad i roi rhagor o wybodaeth i'r Bwrdd yng nghyfarfod y dyfodol.

Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth i nodi'r rhagolwg, cyflwyniad yng nghyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol - Symud y sefydliad o bontio i drawsnewid.

49. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod ef a'r Cadeirydd wedi cwrdd â Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol newydd, a Rebecca Evans, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd.

50. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod wedi rhoi cyflwyniad i'r Bwrdd Cynghori ar Dwristiaeth Cymru a nododd sawl cyfle i gefnogi a chydweithio; trefnwyd cyfarfod rhwng y ddau sefydliad er mwyn datblygu cyfleoedd.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

12. Adroddiad gan Bwyllgorau

51. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2014 wedi'u cynnwys gyda phapurau'r Bwrdd er mwyn eu dilysu.

52. Roedd pwyntiau allweddol i'w nodi o gyfarfod 19 Medi 2014 yn cynnwys:

- Diweddariad ar y gronfa bensiwn – cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan EA a Hymans Robertson. Nodwyd bod 50% o staff CNC yn aelodau o gronfa bensiwn EAPF.
- Ailategodd y Pwyllgor ei gynnig dros ffurfio Is-grŵp Pensiwn
- Y diweddaraf am ODPM - Nododd y Pwyllgor sefyllfa dros dro ODPM, gyda'r Cyfarwyddwr Llywodraethu yn cyflenwi rôl Cyfarwyddwr Gweithredol ODPM hyd nes y bydd Ashleigh Dunn yn ymuno â CNC. Derbyniodd y Pwyllgor gopi o gynllun prosiect lefel uchel ODPM sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am hynt holl faterion parhaus.
- Pecyn buddion llawn - Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r cytundeb hwn. Nododd y Pwyllgor fod angen i CNC weithredu polisïau gwerthuso swyddi ac arfarnu perfformiad.
- Polisi Cyfrinachedd – i'w ystyried yng nghyfarfod mis Tachwedd.
- Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn ystyried opsiynau'r dyfodol ar gyfer y Grŵp Cynghori ar Bontio nawr bod y rhaglen bontio bron â dod i ben.

Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

53. Cadarnhaodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fod cofnodion cyfarfodydd 6 Mehefin ac 11 Gorffennaf wedi'u cynnwys gyda phapurau'r Bwrdd er mwyn eu dilysu.

54. Nododd y Bwrdd y papur sy'n cynnwys crynodeb o'r busnes o gyfarfod 19 Medi.

55. Cadarnhawyd bod yr Adroddiad Blynyddol wedi'i ddosbarthu i aelodau'r Bwrdd ym mis Gorffennaf er gwybodaeth.

56. Nododd y Cadeirydd fod nifer o fân faterion wedi'u nodi o fewn dogfen Fframwaith CNC (a ailenwyd yn Llywodraethu) sy'n cyflwyno trefniadau llywodraethu Llywodraeth Cymru. Roedd Nigel Reader, y Prif Weithredwr, Cadeirydd Llywodraethu a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol wedi cynnal adolygiad blynyddol 'llai manwl' o'r ddogfen mewn cydweithrediad â'n Hadran Noddi. Mân newidiadau, nid newidiadau o sylwedd, oedd y rhain.

Rheoli Perygl Llifogydd Cymru

57. Cadarnhaodd Madeleine Havard fod cyfarfod nesaf Rheoli Perygl Llifogydd Cymru (FRMW) wedi'i drefnu ar gyfer 10 Hydref yn Abertawe.

58. Roedd FRMW wedi ysgrifennu'n ddiweddar at DEFRA am y cynigion i gysylltu costau yswiriant llifogydd â bandiau'r dreth gyngor yn Lloegr, gan gyfeirio at effaith hyn ar Gymru.

59. Cytunwyd ar adolygiad o'r ffordd mae FRMW yn gweithio yn sgil newid y cyd-destun o ran rheoli perygl llifogydd yng Nghymru, ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Y Tîm Llywodraethu fydd yn cynnal yr adolygiad.

60. Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, cynhaliwyd dau gyfarfod rhwng Nigel Reader, Madeilene Havard a'r Pennaeth Rheoli Peryglon. Bwriedir i Ddiwrnod Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol gynnwys sesiwn ar rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli perygl llifogydd, gan gynnwys llywodraethiant perthnasol a chyfrifoldebau'r Bwrdd.

Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig

61. Cadarnhaodd Andy Middleton mai 17 Tachwedd fydd dyddiad y cyfarfod nesaf, lle bydd y Pwyllgor yn ystyried dau SoDdGA posibl lle mynegwyd gwrthwynebiad.

62. Cytunodd y Pwyllgor i roi cymorth i'r Weithrediaeth o ran y papur Tirweddau a drafodwyd mewn cyfarfod busnes ddiwrnod ynghynt.

13. Diweddariadau gan Grwpiau'r Bwrdd (ysgrifenedig)

Grŵp cymunedol

63. Cadarnhaodd y grŵp fod cyfarfod wedi'i drefnu i drafod rhaglen waith y grŵp.

Menter a'r Economi

64. Nododd y Bwrdd y papur a gyflwynwyd.

Amgylchedd

65. Gofynnodd y Grŵp am nodyn cyfarwyddyd ar unrhyw gynnydd er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n berthnasol i'r Panel Cynghori ar Goetiroedd.

Cam gweithredu: Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio i ddarparu nodyn briffio i'r Grŵp ar y Panel Cynghori ar Goetiroedd

66. Gofynnwyd i'r Grŵp nodi cofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfod diwethaf fforwm Rheoli Tir Cymru. Cadarnhawyd y byddai'r Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu yn mynychu'ch cyfarfod nesaf a fydd yn cynnwys trafodaeth ar y diweddaraf am Glastir.

67. Darparodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio'r wybodaeth ddiweddaraf am grŵp y bwrdd adolygu Codi Ffioedd. Cadarnhawyd y byddai ymgynghoriad yn dechrau ym mis Hydref a chytunwyd y byddai grŵp y Bwrdd yn parhau i fonitro datblygiad y cynllun am y 2-3 blynedd nesaf er mwyn sicrhau bod y cyfrifoldebau llywodraethu'n glir.

14. Adrodd ar Gyflwr Adnoddau Naturiol – Diweddariad (NRW B B 72.14)

68. Cyflwynwyd papur er gwybodaeth gan Mike Evans a gadarnhaodd fod cynnydd da wedi'i wneud o ran paratoi adroddiad Interim gan gynnwys datblygu fframwaith clir i gyflwyno'r dystiolaeth. Cafwyd cais gan y Cadeirydd bod yr adroddiad yn ystyried y ffordd orau o gynnwys unrhyw gyfraniadau gan Wyddoniaeth y Dinesydd.

15. Rhagolwg

69. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd dau gyfarfod ychwanegol yn cael eu cynnal ar 10 a 21 Tachwedd.

70. Cytunwyd mai Andy Middleton fydd Hyrwyddwr y Bwrdd ar syniadau disglair ar arloesi.

16. Unrhyw fater arall

71. Ni nodwyd unrhyw fater arall.